Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# BYDD BOSITIF GYDA'R WARANT I BOBL IFANC

## PECYN CYMORTH

# FEED YOUR POSITIVITY WITH THE YOUNG PERSON'S GUARANTEE

## TOOLKIT





## CRYNODEB O'R WARANT I BOBL IFANC YNG NGHYMRU

Dros y tair blynedd diwethaf mae pobl ifanc wedi wynebu rhwystrau enfawr, gydag iechyd meddwl, hyder isel a diffyg cyfeiriad yn eu hatal rhag cael swydd neu rhag parhau â'u haddysg neu gwblhau eu haddysg.

Ddiwedd 2021, yn ystod cyfnod o fwy a mwy ansicrwydd am eu rhagolygon ar ôl y pandemig, lansiodd Llywodraeth Cymru y Warant i Bobl Ifanc.

Mae'n cynnig cymorth diduedd o ansawdd uchel i bawb rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru, a chysylltiadau â chyfleoedd addas. Gallai'r rhain gynnwys mynd i addysg bellach, prentisiaeth, rhaglen hyfforddi sy'n gallu darparu profiad gwaith gwerthfawr, cymorth i ddod o hyd i swydd neu ddechrau busnes.

**Dyma lle gallwch chi helpu. Rydyn ni'n cefnogi unrhyw ffordd rydych chi'n dewis helpu'r bobl ifanc yn eich cymuned. Fodd bynnag, os gallwch chi ein helpu ni i hyrwyddo'r Warant i Bobl Ifanc ochr yn ochr ag unrhyw wasanaethau rydych chi'n eu darparu, gallwn ni sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

## INTRODUCING THE YOUNG PERSON'S GUARANTEE

Over the last three years, young people have faced enormous obstacles, with mental health, low confidence, and a lack of direction preventing them from getting a job or continuing or completing their education.

At the end of 2021, during a period of increasing uncertainty about their prospects following the pandemic, the Welsh Government launched the Young Person's Guarantee (YPG).

It offers every 16-24-year-old in Wales high-quality, impartial support, and connections to suitable opportunities. These could include further education, an apprenticeship, a training programme that can provide valuable work experience, help finding a job or starting a business.

**This is where you come in. We fully support any way you choose to help the young people in your community. However, if you can help us promote the YPG alongside any services you provide, we can ensure that no one is left behind.**

## SUT MAE CAEL GAFAEL AR Y WARANT I BOBL IFANC

Os oes ar bobl ifanc angen neu eisiau cymorth neu arweiniad diduedd, mae'n bosibl iddyn nhw drafod y Warant â chynghorwyr gyrfaoedd penodol ar-lein, ar y stryd fawr, a thrwy gyfleusterau allgymorth gwell ar hyd a lled Cymru. Mae'r platfform Cymru'n Gweithio ar gael hefyd drwy:

- **Sgyrsiau ar y we**
- **Skype**
- **E-bost**
- **Gwasanaethau neges destun**


Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma.**

## HOW THE YOUNG PERSON'S GUARANTEE CAN BE ACCESSED

If young people need or want support or impartial guidance, they can discuss the Guarantee with dedicated careers advisors online, on the high street, and through improved outreach facilities across Wales. The Working Wales platform can also be accessed via:

- **Web chats**
- **Skype**
- **Email**
- **Text services**

You can find out more **here.**



# PAM RYDYN NI'N CYSYLLTU Â CHI

Fel y soniwyd, rydyn ni eisiau cydweithio'n agos â chi i sicrhau bod yr holl bobl ifanc a rhieni ar hyd a lled Cymru yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddyn nhw drwy'r Warant i Bobl Ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymgyrch Bydd Bositif i sicrhau pobl ifanc yng Nghymru bod dyfodol cadarnhaol o'u blaenau ac y bydd y Warant i Bobl Ifanc yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i'w helpu i gymryd eu camau nesaf.

**Gallwch chi ein helpu drwy wneud y canlynol...**

1. Rhannu ein hasedau ar eich sianeli.
2. Nodi a rhannu astudiaethau achos o unigolion 16-24 oed y gall eu straeon ysbrydoli eraill i lwyddo.
3. Nodi a rhannu straeon am fudiadau sydd â phobl ifanc yn ganolog iddynt neu sy'n ffynnu ar ôl cyflogi pobl ifanc.

# WHY WE ARE CONTACTING YOU

As mentioned, we want to work in strong collaboration with you to ensure all young people and parents across Wales know about the support available to them via the Young Person's Guarantee. The Welsh Government is continuing its Feed Your Positivity marketing campaign to reassure young people in Wales that there is a positive future ahead of them and that the Young Person's Guarantee will provide support and guidance to help them take their next steps.

**You can help us by...**

1. Sharing our assets on your channels.
2. Identifying and sharing case studies of individuals aged 16-24 whose stories can inspire others to succeed.
3. Identifying and sharing stories of organisations with young people at their heart, or which are thriving after taking on young people.



## ASEDAU DIGIDOL SYDD AR GAEL I CHI

Mae asedau'r ymgyrch yr hoffem i chi eu rhannu i gyd ar gael **yma:**

- **Cyflwyniad byr i'r Warant i Bobl Ifanc a sut i gael gafael arni – (copi ar y we)**
- **Golwg gyffredinol o'r holl gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael gafael arni (taflen ddigidol)**
- **Llythyr neu e-bost at rieni a gwarcheidwaid yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc (copi)**
- **GIFs yn amlinellu manteision allweddol cysylltu â Cymru'n Gweithio i gael gafael ar gefnogaeth y Warant (i'w ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol)**
- **Fideo byr yn egluro beth yw'r Warant i Bobl Ifanc (i'w ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol)**
- **Ffilm ysbrydoledig sy'n tynnu sylw at y gwahanol fathau o swyddi y gallai pobl ifanc fod â diddordeb ynddyn nhw (i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, neu ar eich gwefan)**


Mae'r asedau i gyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae copi a awgrymir i gyd-fynd ag asedau cyfryngau cymdeithasol ar gael **yma.**

## DIGITAL ASSETS AVAILABLE TO YOU

The campaign assets we would like you to share can all be found **here:**

- **A brief introduction to the Young Person's Guarantee and how to access it – (web copy)**
- **An overview of all the available support and how to access it (digital leaflet)**
- **A letter or email for parents and guardians outlining the support available for young people (copy)**
- **GIFs outlining the key benefits of reaching out to Working Wales to access the Guarantee support (for use on social media)**
- **A short video explaining what the Young Person's Guarantee is (for use on social media)**
- **An inspiring film highlighting the different types of jobs young people might be interested in (for use on social media, or your website)**

All assets are available in English and Welsh. Suggested copy to accompany social media assets can be found **here.**





## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am Cymru'n Gweithio – Gwarant i Bobl Ifanc neu ewch i **www.cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/gwarant-i-bobl-ifanc** neu ffoniwch **0800 028 4844.**

Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch unrhyw rai o'r asedau amgaeedig cysylltwch â:

**Dani Harries**
Uwch-reolwr Cyfrif
Golley Slater
**02920 238 8621**
**dharries@golleyslater.co.uk**

ar ran Llywodraeth Cymru.

## Contact details

For more information, search Working Wales – Young Person's Guarantee or visit **www.workingwales.gov.wales/how-we-can-help/young-persons-guarantee** or call **0800 028 4844.**

For enquiries on any of the enclosed assets contact:

**Dani Harries**
Senior Account Manager
Golley Slater
**02920 238 8621**
**dharries@golleyslater.co.uk**

on behalf of the Welsh Government.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Gyrfa Cymru
Careers Wales